



Rhif ymchwil cymdeithasol: 33/2025

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2025

Astudiaeth beilot o foeseg mewn ymchwil data gweinyddol: dadansoddiad gweithdy

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-640-5

Astudiaeth beilot o foeseg mewn ymchwil data gweinyddol:
dadansoddiad gweithdy

Awduron: Emma Yates, Katy Addison ac Amy Weedall

Adroddiad ymchwil llawn: Yates, E., Addison, K., Weedall, A. (2025).
Dadansoddi gweithdy o'r astudiaeth beilot o foeseg mewn ymchwil data
gweinyddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 33/2025
Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/moeseg-mewn-ymchwil-data-gweinyddol-
dadansoddiad-o-weithdai-cyhoeddiad](https://www.llyw.cymru/moeseg-mewn-ymchwil-data-gweinyddol-dadansoddiad-o-weithdai-cyhoeddiad)

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad ac nid o reidrwydd barn
Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Emma Yates

Caffael a Chysylltu Data ar gyfer Ymchwil

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YDGCymru@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o ffigurau.....	2
Geirfa	3
1. Crynodeb gweithredol.....	7
Cyflwyniad	7
Cefndir.....	7
Canfyddiadau allweddol	8
Cyfyngiadau.....	9
Camau nesaf	9
2. Cyflwyniad	10
Nodau.....	11
3. Cefndir.....	11
Beth yw Panel Defnyddwyr SAIL?	11
Beth yw moeseg data?	12
Llythrennedd data.....	12
4. Methodoleg.....	14
Cyfyngiadau y methodoleg	15
5. Canfyddiadau	17
Thema 1 - Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.....	18
Thema 2 - Atebolrwydd	21
Thema 3 - Ymddiriedaeth a thryloywder	22
Thema 4 - Mynediad a chynhwysiad data	24
6. Casgliadau	27
7. Camau nesaf	28
8. Diolchiadau.....	28
Cyfeiriadau	29
Atodiad A	32

Rhestr o ffigurau

Ffigur 5.1: Themâu ac Is-themâu sy'n Dod i'r Amlwg o'r Gweithdai.....	177
---	-----

Geirfa

Atebolrwydd

Y 'mecanweithiau llywodraethu a goruchwylio effeithiol ar gyfer unrhyw brosiect' (Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog 2020).

Ymchwilwyr achrededig

Er mwyn cael mynediad at ddata mewn amgylcheddau ymchwil diogel, mae angen i ymchwilwyr gael eu hachredu. I fod yn ymchwilydd achrededig, mae angen bodloni meini prawf penodol ac mae angen i unigolion gwblhau cwrs hyfforddi cydnabyddedig ar gyfer ymchwilwyr diogel a phasio asesiad.

Data gweinyddol

Data a gesglir pan fydd pobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, megis ym myd addysg, y gwasanaeth iechyd, neu'r llysoedd neu system fudd-daliadau. Mae'r data hyn yn cael eu coladu gan y llywodraeth i ganiatáu ar gyfer darparu gwasanaethau ac nid ydynt wedi'u hanelu'n bennaf at ddibenion ymchwil.

ADR UK

Mae Ymchwil Data Gweinyddol y DU yn cynnwys pedair partneriaeth genedlaethol (ADR England, ADR Northern Ireland, ADR Scotland ac YDG Cymru), a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'n gweithredu i sicrhau bod ymchwilwyr yn cael mynediad at ddata Llywodraeth y DU ar ffurf ddiogel er mwyn creu mewnwelediadau am gymdeithas i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Ariennir ADR UK gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, fel rhan o Ymchwil ac Arloesi'r DU.

YDG Cymru

Mae YDG Cymru yn uno arbenigwyr ym mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, Banc Data SAIL, ac ystadegwyr, economegwyr ac ymchwilwyr cymdeithasol o Lywodraeth Cymru. Nod y data a gysylltir ac a ddadansoddir gan YDG Cymru yw darparu tystiolaeth ar gyfer y meysydd blaenoriaeth yng Nghymru.

Anonymeiddio

Y broses o dynnu dynodwyr allweddol (fel enwau a dyddiadau geni) o ddata personol.

Dadadnabod data

Mae data'n cael eu dadadnabod trwy ddileu gwybodaeth bersonol a fyddai'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod yn uniongyrchol.

Cynhwysiant data

Gallu cyffredinol pobl i greu, rheoli, cyrchu a defnyddio data (Bhargava et al 2015).

Cyswllt data

Dod â data ynghyd o ddwy ffynhonnell wahanol neu fwy sy'n ymwneud â'r un unigolyn, teulu, lle neu ddigwyddiad.

Llythrennedd data

y gallu i ddarllen, deall, creu, archwilio a gweithio gyda data mewn ffordd ystyrlon.

Rhannu data

Symud gwybodaeth neu ddata o un sefydliad neu adran i un arall.

Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

Deddfwriaeth sydd (trwy'r Cod Ymarfer Ymchwil) yn hwyluso'r gwaith o gysylltu a rhannu setiau data a gedwir gan gyrff cyhoeddus at ddibenion ymchwil.

Fframwaith Pum Egwyddor Ddiogel

Set o egwyddorion arfer gorau a ddefnyddir i lywodraethu mynediad diogel at ddata ar gyfer ymchwil. Y pum egwyddor ddiogel yw: data diogel (risg datgeliad wedi'i reoli), prosiectau diogel (defnyddir data'n briodol ac er lles y cyhoedd), pobl ddiogel (mae ymchwilwyr wedi'u hyfforddi'n briodol), gosodiadau diogel (mae defnydd anawdurdodedig wedi'i gyfyngu gan y cyfleuster mynediad), ac allbynnau diogel (mae allbynnau'n cael eu sgrinio ar gyfer risg datgelu).

Dull iteraidd

Ymagwedd yn seiliedig ar broses systematig ac ailadroddus o ddadansoddi data ansoddol (Mills et al.2010)

OECD

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

SYG

Swyddfa Ystadegau Gwladol.

OSR

Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau

Hysbysiad Preifatrwydd

Dogfen sy'n nodi pam mae data personol unigolyn yn cael eu prosesu; am ba hyd y byddant yn cael eu cadw a sut maent yn cael eu rhannu.

Budd cyhoeddus

Yn aml yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol â 'budd y cyhoedd' a 'lles y cyhoedd', mae budd cyhoeddus yn ymwneud â manteision ymchwil a dadansoddi i'r cyhoedd.

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Set bwrpasol o weithgareddau wedi'u cynllunio i hyrwyddo deialog barhaus â'r cyhoedd am ymchwil data gweinyddol, wedi'i sbarduno gan wrando gweithredol ac ymateb (gwefan ADR UK).

Unioni

I unioni neu gywiro.

SAIL

Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n cynnwys amrediad o setiau data heb eu nodi y gellir eu cysylltu ar gyfer prosiectau ymchwil cymeradwy gan ymchwilwyr achrededig.

Panel Defnyddwyr SAIL

Panel cyhoeddus sy'n cynnwys tua 16 aelod o'r cyhoedd sy'n byw ledled Cymru ac yn dod at ei gilydd tuag unwaith y chwarter i gynghori ymchwilwyr ar eu prosiectau SAIL.

Llwyfan eYmchwil Diogel

Amgylchedd diogel ar gyfer rhannu data ar gyfer cydweithio a dadansoddi.

Tryloywder

Camau gweithredu, prosesau a data yn cael eu gwneud yn agored i'w harchwilio drwy gyhoeddi gwybodaeth am y prosiect mewn fformat cyflawn, agored, dealladwy, hygyrch, a rhad ac am ddim (Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog 2020).

TRE

Mae Amgylcheddau Ymchwil Dibynadwy yn amgylcheddau cyfrifiadurol hynod ddiogel sy'n darparu mynediad o bell at ddata i ymchwilwyr cymeradwy eu defnyddio mewn ymchwil.

UKSA

Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.

1. Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliwyd y prosiect hwn i hysbysu gwaith Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) Cymru. Mae'n amlinellu canfyddiadau allweddol dau weithdy a gynhaliwyd gyda Phanel Defnyddwyr Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Canolbwyntiodd y gweithdai ar archwilio moeseg mewn ymchwil data gweinyddol.
- 1.2 Mae YDG Cymru yn gydweithrediad o academyddion ym mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, swyddogion yn Llywodraeth Cymru a staff Banc Data SAIL sydd wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Abertawe. Mae YDG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gyrchu, dadansoddi a chynhyrchu mewnwelediadau o ymchwil seiliedig ar ddata i ddarparu tystiolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru. Mae SAIL yn Llwyfan eYmchwil Diogel ac yn Amgylchedd Ymchwil Ymddiriededig (TRE) a achredwyd gan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 lle cedwir setiau data gweinyddol mawr heb eu nodi a gallant fod ar gael i ymchwilwyr achrededig i weithio ar brosiectau cymeradwy.

Cefndir

- 1.3 Mae'n anodd diffinio moeseg data yn fanwl gywir. Mae'n ystyried elfennau cymdeithasol, technegol a gweithdrefnol mentrau data ac ymchwil, gan gynnwys asesu arferion data i ddeall eu heffeithiau cadarnhaol a negyddol (Gwefan yr Open Data Institute 2024). Mae hefyd yn cynnwys cysyniadau sylfaenol fel atebolrwydd, tegwch, tryloywder, budd y cyhoedd, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymddiriedaeth (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd 2019). Mae'n broses weithredol sy'n berthnasol ar bob cam o'r broses ymchwil ac sy'n benodol i'r cyd-destun (Y Gymdeithas Frenhinol 2020).
- 1.4 Mae'r llenyddiaeth yn nodi bod y ffocws wedi bod ar ddatblygu'r agweddau technegol i sicrhau bod ymchwil sy'n defnyddio data gweinyddol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith (Canolfan Moeseg Data ac Arloesi 2020). Fodd bynnag, mae llai o ymchwil wedi'i wneud ar yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei feddwl am foeseg ymchwil gan ddefnyddio data gweinyddol ac nid yw cydymffurfio â'r gyfraith yn unig yn ddigon i sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd (Muller et al. 2021). Mae Jones a Ford (2018) yn honni bod angen meithrin derbynioldeb

cymdeithasol ymchwil, ond mae hon yn ddynnameg gymhleth sy'n gofyn am ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r cyhoeddiad hwn yn ategu adolygiad llenyddiaeth ar foeseg mewn ymchwil data gweinyddol (Yates 2025).

- 1.5 Er mwyn asesu pa ymchwil ychwanegol sydd ei angen yn y maes hwn ac i ddeall yr agweddau pwysig ar foeseg data o safbwynt grŵp bach o aelodau gwybodus o'r cyhoedd, cynhaliwyd dau weithdy gyda Phanel Defnyddwyr SAIL. Cafodd y trawsgrifiadau o'r ddau weithdy eu dadansoddi'n thematig gan ymchwilwyr Llywodraeth Cymru.

Canfyddiadau allweddol

- 1.6 Roedd consensws cyffredinol ymhlith y Panel Defnyddwyr bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r defnydd o ddata, ymchwil data gweinyddol a'i ganlyniadau yn isel iawn. Nododd y cyfranogwyr angen allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymchwil data gweinyddol a 'chyhoeddi'r neges'. Roeddent yn awgrymu defnyddio ffynonellau dibynadwy i hysbysebu, a darparu gwybodaeth am ddata a ddefnyddir ar gyfer ymchwil yng nghyd-destun darparu gwasanaethau.
- 1.7 Teimlai'r Panel Defnyddwyr fod atebolrwydd yn agwedd bwysig ar foeseg data. Mae cyfathrebu a gwneud iawn yn rhan o hyn, yn enwedig pan aiff rhywbeth o'i le. Mae cyd-destun yn bwysig o ran atebolrwydd. O fewn cyd-destun ymchwil, nid yw achosion o dorri data yn gyffredin ac mae systemau da ar waith yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae setiau data'r Llywodraeth yn adnoddau cyhoeddus cyfunol ac felly awgrymodd cyfranogwyr y panel y dylai fod lefel o atebolrwydd i'r cyhoedd.
- 1.8 Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y gall ymddiriedaeth y cyhoedd gael ei erydu gan doriadau data mewn sectorau eraill ac y gall toriadau o'r fath danseilio ymddiriedaeth mewn prosesau rhannu data ar draws llawer o gyd-destunau.
- 1.9 Mae canfyddiadau'r gweithdai hyn yn awgrymu bod angen mwy o dryloywder mewn prosesau rhannu data, fel y gall pobl weld sut mae eu data'n cael eu defnyddio a chanlyniadau ymchwil. Byddai hyn yn helpu pobl i asesu a yw eu data'n cael eu defnyddio'n briodol ac er budd y cyhoedd. Roedd y Panel Defnyddwyr yn cydnabod, fodd bynnag, bod risgiau'n gysylltiedig â mwy o dryloywder a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

- 1.10 Awgrymodd y Panel Defnyddwyr y gellid gwella mynediad y cyhoedd at ymchwil data gweinyddol trwy ddefnyddio iaith y gall cynulleidfaoedd gwahanol ei deall, gan ddefnyddio delweddau, osgoi termau technegol a thrwy wybod mwy am wella mynediad. Gwnaeth cyfranogwyr y panel awgrymiadau eraill, megis: creu adnoddau i'r cyhoedd (crynodebau llewg a geirfaoedd o dermau a ddefnyddir yn gyffredin) ac addasiadau, megis cronfeydd data pwyntiau mynediad lluosog i alluogi pobl â lefelau amrywiol o arbenigedd i ddeall y data a gyflwynir.

Cyfngiadau

- 1.11 Astudiaeth ar raddfa fach oedd hon gyda grŵp gwybodus o gyfranogwyr nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r cyhoedd yn ehangach o ran demograffeg, na llythrennedd data. Mae angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r materion yn ehangach gyda rhannau amrywiol o gymdeithas.

Camau nesaf

- 1.12 Mae angen ymchwil yn y dyfodol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am ganfyddiadau o foeseg data mewn ymchwil data gweinyddol. Gallai hyn gynnwys gweithdai gyda phaneli cyhoeddus YDG eraill, yn ogystal â grwpiau cyhoeddus cynrychioliadol. Gallai hefyd gynnwys ymchwil ansoddol gyda dadansoddwyr, academyddion ac ymchwilwyr i ategu canfyddiadau'r prosiect hwn.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae gwella safonau moesegol yn rhan o nodau strategol YDG Cymru i gynnal ansawdd a chywirdeb Rhaglen Waith YDG Cymru 2022 i 2026 (YDG Cymru 2022). Mae YDG Cymru yn rhan o bartneriaeth ehangach ADR UK sy'n ceisio trawsnewid 'cyfoeth data'r sector cyhoeddus yn asedau ymchwil a mewnwelediadau sy'n berthnasol i bolisi' (ADR UK 2025).
- 2.2 Mae moeseg ymchwil yn rhan bwysig a weithiau cymhleth o ddefnyddio data ar gyfer ymchwil. O fewn y maes penodol o ymchwil data gweinyddol ac ymchwil sy'n cysylltu setiau data o wahanol rannau o'r llywodraeth, mae goblygiadau moesegol penodol o ymchwil sy'n defnyddio data lefel poblogaeth 'fawr' yn y modd hwn, megis meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd, sicrhau tegwch, diogelwch a defnydd priodol o ddata. Mae angen i ymchwil fod er budd cyhoeddus penodol hefyd, ond gall hyn fod â gwahanol ystyron mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hefyd yn bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o ddata sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil pan fydd data'n cael eu casglu wrth ddarparu gwasanaethau a bod llwybrau ar gyfer cymryd rhan.
- 2.3 Mae'r adolygiad llenyddiaeth sy'n cyd-fynd â'r cyhoeddiad hwn (Yates 2025) yn nodi'n fanylach y cefndir a'r cyd-destun ehangach ar gyfer y prosiect hwn ac yn amlygu egwyddorion moesegol allweddol gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, ymddiriedaeth a thryloywder. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn un o egwyddorion moesegol Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) ac mae'n rhan o'r Fframwaith Moeseg Data (Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog 2020). Mae Adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR): Rhannu Data a Chysylltu er Lles y Cyhoedd (2023) yn nodi mai ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â rhannu data a chysylltiadau oedd un o'r pynciau mwyaf a grybwyllwyd gan gyfweleion. Fe wnaeth Aitkin et al. (2016) ganfod bod tystiolaeth gynyddol o gefnogaeth amodol ar gyfer rhannu data a chysylltu data ar gyfer ymchwil, ond mae lefelau isel o ymwybyddiaeth o sut y defnyddir data. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnwys rhanddeiliaid mewn ymchwil data gweinyddol.

Nodau

- 2.4 Nod y prosiect hwn felly oedd ymchwilio i'r materion hyn gyda phanel cyhoeddus i gael cipolwg ar eu canfyddiad o foeseg data mewn ymchwil data gweinyddol ac ystyried pa waith ychwanegol sydd angen ei wneud yn y maes hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn nodi canfyddiadau gweithdai gyda Phanel Defnyddwyr Banc Data SAIL. Cynhaliwyd dau weithdy dan arweiniad ar-lein gyda'r panel ym mis Mehefin 2023 a mis Ionawr 2024.
- 2.5 Yn gyntaf mae'r adroddiad hwn yn nodi rhywfaint o gefndir perthnasol i'r prosiect yn Adran 3 ac yn cynnwys rhywfaint o fanylion am Banel Defnyddwyr SAIL ac yn rhoi diffiniad o foeseg data. Yna caiff y fethodoleg a'r cyfyngiadau eu hesbonio yn Adran 4, cyn cyflwyno crynodeb o'r canfyddiadau mewn diagram ar ddechrau Adran 5. Mae canfyddiadau manylach yn dilyn yn Adran 5 o dan y penawdau canlynol: Agweddau ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd, Atebolrwydd, Ymddiriedaeth a Thryloywder a Mynediad a Chynhwysiant Data. Mae Adrannau 6 a 7 yn nodi'r casgliadau a'r camau nesaf o'r prosiect.

3. Cefndir

Beth yw Panel Defnyddwyr SAIL?

- 3.1 Mae SAIL yn Llwyfan eYmchwil Diogel (TRE achrededig o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) lle cedwir setiau data gweinyddol mawr wedi eu dadadnabod. Mae'r setiau data hyn ar gael i ymchwilwyr achrededig ar gyfer prosiectau ymchwil penodol a chymeradwy er budd y cyhoedd, heb fod angen i'r data adael rhwydwaith SAIL. Sefydlwyd Panel Defnyddwyr SAIL yn 2011 i 'ddarparu llais cyhoeddus a mesur derbynioldeb cymdeithasol' y gwaith a wneir yn SAIL (gwefan SAIL). Mae'r panel yn cynnwys tuag 16 aelod o'r cyhoedd sy'n byw ledled Cymru ac yn dod at ei gilydd unwaith bob chwarter ac ar gael i gynghori ymchwilwyr. Ers pandemig Covid-19, cynhelir cyfarfodydd rhithwir ac mae gan ymchwilwyr slot awr o hyd lle gall y panel helpu â chynigion ar gyfer ymchwil, ystyried goblygiadau canfyddiadau, adolygu gwybodaeth a gynlluniwyd ar gyfer cynulleidfau leyg a chynghori ar y ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach. Mae'r panel yn 'arbenigol' yn y cyd-destun hwn oherwydd eu bod yn gyfarwydd â data gweinyddol a chysyniadau cysylltu data a phrosiectau ymchwil.

Beth yw moeseg data?

- 3.2 Mae gwahanol ddiffiniadau o foeseg data ac mae'n anodd diffinio'n fanwl gywir. Gellir ei deall fel cangen esblygol o foeseg ymchwil sy'n esblygu gyda datblygiadau ystadegol a thechnolegol a chanfyddiad cymdeithasol a chyhoeddus ynghylch sut y dylid defnyddio data ar gyfer ymchwil: Mae wedi ei ddiffinio fel a ganlyn:

Mae'r parth moeseg data yn edrych ar agweddau ac effeithiau moesegol a chymdeithasol casglu data, prosesu data, dadansoddi data a chymhwyso'r dadansoddiad hwnnw. Gallai ystyriaethau moesegol felly amrywio o archwilio cysyniadau sylfaenol megis caniatâd, tegwch ac atebolrwydd, ac archwilio'r dulliau dadansoddol eu hunain (fel algorithmau penodol), i archwilio effeithiau ehangach systemau a ysgogir gan ddata (Röttger and Vedres. 2020).

- 3.3 Er bod llawer o ffocws wedi'i roi ar sicrhau bod data'n cael eu defnyddio'n foesegol mewn prosiectau cysylltu data drwy gyfeirio at brosesau, technoleg a deddfwriaeth ddiogel (er enghraifft, cysylltu drwy ddefnyddio meysydd dienw, defnyddio'r Fframwaith Pum Egwyddor Diogel, sefydlu'r pŵer cyfreithiol i wneud ymchwil o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data), bu llai o ymchwil i farn y cyhoedd am foeseg ymchwil data gweinyddol. Mae mynd i'r afael â rhwystrau technegol a chyfreithiol rhag rhannu data wedi bod yn ffocws ond 'cymharol gyfyngedig fu ymdrech gan y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach i fynd i'r afael yn benodol ag ymddiriedaeth y cyhoedd' (Canolfan Moeseg Data ac Arloesi 2020). Honnir nad yw cydymffurfiaeth gyfreithiol yn unig yn ddigon i sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd (Muller et al. 2021) a bod gofyniad i feithrin derbynioldeb cymdeithasol ymchwil (Jones a Ford 2018), ond mae hon yn ddynnameg gymhleth sy'n gofyn am ymgysylltu â'r cyhoedd.

Llythrennedd data

- 3.4 Mae'r adolygiad llenyddiaeth (Yates 2025) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn, yn amlinellu gwybodaeth gefndirol allweddol i'n dealltwriaeth o foeseg data, er enghraifft ar faterion fel digideiddio dros y blynyddoedd diwethaf a materion moesegol penodol mewn ymchwil data gweinyddol. Yn ogystal â hyn, mae'r

llynyddiaeth yn tynnu sylw at rai cwestiynau pwysig am ddynnameg pŵer mewn ecosystemau data (Ada Lovelace Institute 2022).

3.5 Gellir deall llythrennedd data fel 'llythrennedd yn oes data', gan gyfeirio at yr 'awydd a'r gallu gan y cyhoedd i ymgysylltu'n adeiladol â chymdeithas trwy a chyda data' (Bhargava et al 2015). Mae ymchwil Cameron et al. (2014), 'Dialogue on Data', yn amlygu'r ffyrdd nad yw llawer o bobl yn deall ymchwil gymdeithasol oherwydd eu bod yn ei chael yn rhy 'gymhleth ac anodd' (fel y dyfynnwyd gan ADR UK 2020). Roedd cysyniadau fel 'data gweinyddol' yn cael eu hystyried yn rhy gymhleth gan gyfranogwyr yr astudiaeth ac roedd hyn yn tanseilio'r gwerth cymdeithasol a roddir i ymchwil sy'n defnyddio'r math hwn o ddata (Cameron et al. 2014, fel y dyfynnwyd gan ADR UK 2020). Fodd bynnag, unwaith y defnyddiwyd iaith briodol, datblygodd dealltwriaeth y cyfranogwyr o ymchwil o'r fath. Mae hyn yn amlygu arwyddocâd defnyddio iaith annhechnegol i egluro i'r cyhoedd beth mae'r llywodraeth yn ei wneud a'r ffyrdd y mae data'n cael eu defnyddio i chwalo rhwystrau rhag gwybodaeth data, gwella tryloywder a gwella ymddiriedaeth (ADR UK 2020).

3.6 Er mwyn i'r cyhoedd allu ymgysylltu â data, honnir bod yn rhaid iddynt eu deall a chael eu grymuso â'r sgiliau a'r wybodaeth i ymdrin â nhw mewn ffordd sy'n 'ystyrlon ac effeithiol iddynt hwy' (Bhargava et al 2015). Yn lle disgwyl i ddinasyddion ddysgu terminolegau cymhleth sy'n newid yn barhaus dros amser, neu gael cynnig un ffordd o ddysgu, mae Bhargava et al. (2015) yn honni y dylid cynnig dulliau mwy personol i bobl sy'n gwella eu sgiliau llythrennedd data ac yn eu galluogi i ymgysylltu'n llawn â'r gymdeithas wybodaeth. Mae hyn yn rhan o ddadl ehangach ynghylch cynhwysiant data, sy'n cyfeirio at 'allu cyffredinol pobl i greu, rheoli, cyrchu a defnyddio data' (Bhargava et al 2015).

Mae perthynas gymhleth rhwng meddu ar y gallu i gyrchu data a hefyd y sgiliau/gwybodaeth i ddeall a gweithio gyda data, ac mae hyn yn amlygu'r gwahanol lefelau o sgil a dealltwriaeth sydd ynghlwm.

4. Methodoleg

- 4.1 Cynhaliwyd dau weithdy gyda Phanel Defnyddwyr SAIL, â'r nod o archwilio dealltwriaeth y cyhoedd o foeseg mewn ymchwil data gweinyddol. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ym mis Mehefin 2023 a'r ail ym mis Ionawr 2024.
- 4.2 Roedd y cyfranogwyr cymwys yn aelodau o Banel Defnyddwyr SAIL a oedd yn bresennol mewn sesiwn panel cyffredinol ar y dyddiadau y cynhaliwyd y gweithdai. Mae'r Panel Defnyddwyr yn cynnwys tuag un ar bymtheg o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru. Anfonwyd taflen wybodaeth a hysbysiad preifatrwydd at y cyfranogwyr cyn pob gweithdy.
- 4.3 Cynhaliwyd y gweithdai yn rhithwir, gan ddefnyddio meddalwedd Zoom, a pharhaodd pob un am awr. Roedd 12 o gyfranogwyr y panel yn y gweithdy cyntaf a 13 o gyfranogwyr yn yr ail weithdy. Hwyluswyd y gweithdai gan dîm prosiect Llywodraeth Cymru, a chydlynnydd ymgysylltu cyhoeddus SAIL.
- 4.4 Datblygwyd canllaw testun lled-strwythuredig ar gyfer pob gweithdy gan dîm y prosiect (Gweler Atodiad A). Y pynciau a gafodd sylw yng nghanllaw y pwnc cyntaf oedd: archwilio moeseg data a blaenoriaethau moesegol mewn cysylltu data, a lledaenu gwybodaeth yn gyhoeddus am y defnydd o ddata gweinyddol ar gyfer ymchwil. Y pynciau a gafodd sylw yng nghanllaw yr ail pwnc oedd: tryloywder a chraffu cyhoeddus ar ymchwil data gweinyddol. Dewiswyd a datblygwyd y pynciau o lenyddiaeth bresennol a nodwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth sy'n cyd-fynd (Yates 2025), gyda'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn y gweithdy cyntaf hefyd yn bwydo i mewn i ddatblygiad y pynciau yn yr ail weithdy. Datblygwyd sleidiau darluniadol hefyd i'w cyflwyno yn y ddau weithdy i fod yn sbardun i drafodaeth.
- 4.5 Cafodd yr holl weithdai eu recordio ac yna eu trawsgrifio gair am air gan ddefnyddio meddalwedd trawsgrifio Zoom sydd wedi'i ymgorffori. Oherwydd bod y feddalwedd yn cael ei hawtomeiddio, bu ambell wall trawsgrifio homoffonig, ond nid oedd y rhain yn effeithio ar synnwyr yr hyn a ddywedwyd. Cafodd unrhyw ddata adnabod eu dileu cyn i'r dadansoddiad gael ei gwblhau.
- 4.6 Defnyddiwyd dull thematig ailadroddus i ddadansoddi'r trawsgrifiadau. Cafodd pob trawsgrifiad ei godio'n unigol gan bob aelod o dîm y prosiect, gan ddefnyddio Microsoft Excel. Dadansoddodd pob codydd y data mewn perthynas â thema

ymchwil gyffredinol moeseg data, gan ddefnyddio codio agored, (hynny yw, cafodd codau eu datblygu a'u haddasu gan bob codydd). Dilynwyd yr ymarfer codio cychwynnol hwn wedyn gan gyfarfod o'r codwyr a adolygodd y codau gyda'i gilydd, gan gytuno a thrafod unrhyw wahaniaethau rhwng codau cychwynnol, gan addasu a diwygio lle'n briodol. Yna ailadroddodd y codyddion yr ymarfer codio unigol gan ddefnyddio'r codau y cytunwyd arnynt ac yna trefnwyd y codau yn themâu ehangach a oedd yn dod i'r amlwg. Yna cyfarfu'r codyddion ar gyfer cyfarfod consensws terfynol, lle cytunwyd ar fframwaith terfynol o'r themâu a'r is-themâu a nodwyd o'r fframwaith codio y cytunwyd arno. Dangosir y fframwaith hwn yn Ffigur 5.1 isod, a thrafodir y canfyddiadau yn Adran 5.

Cyfyngiadau y methodoleg


- 4.7 Mae cyfyngiadau penodol i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym yn y prosiect hwn, a dylid ystyried y canfyddiadau a'r casgliadau a nodir yn yr adroddiad hwn yng ngoleuni'r cyfyngiadau hyn. Roedd cyfranogwyr y gweithdai yn aelodau o Banel Defnyddwyr SAIL ac ni chawsant eu dewis ar hap neu fel arall yn aelodau o'r cyhoedd. Mae natur y Panel yn golygu bod y cyfranogwyr yn ymgysylltu, yn ymddiddori ac yn wybodus am ymchwil data gweinyddol mewn ffordd nad yw efallai'n cynrychioli'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad yw'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn y gweithdai, er yn gyfoethog o ran dirnadaeth, yn adlewyrchu barn a gwybodaeth y cyhoedd ynghylch y maes hwn.
- 4.8 Yn ogystal â natur anghynrychiadol y cyfranogwyr o ran eu hymwneud ag ymchwil data gweinyddol, mae'n bosibl nad oedd cyfranogwyr y grwpiau trafod yn gynrychiadol o'r boblogaeth gyffredinol mewn ffyrdd eraill, gan fod aelodau'r Panel Defnyddwyr yn wirfoddolwyr sy'n dewis eu hunain. Mae gweinyddwyr SAIL wedi gwneud ymdrechion wedi'u targedu i gynyddu amrywiaeth yn enwedig o ran oedran, ond ni chasglwyd demograffeg y cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon, ac felly ni wyddys a yw'r sampl yn gynrychiadol o ran nodweddion demograffig megis ethnigrwydd neu statws economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn golygu na ellir rhagdybio bod safbwyntiau grwpiau lleiafrifol wedi'u casglu yn y prosiect hwn.
- 4.9 Cynhaliwyd y gweithdai ar-lein, ac mae'n bosibl fod hyn wedi ychwanegu rhwystrau at feithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth rhwng yr hwylusydd a'r

cyfranogwyr, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cadw eu camerâu i ffwrdd oni bai eu bod yn siarad, gan arwain at ddiffyg cyfathrebu dieiriau.

- 4.10 Er mwyn lliniaru'r rhwystrau -rhag meithrin cydberthynas rhwng yr hwylusydd a'r cyfranogwyr, cynlluniwyd canllawiau pwnc (gweler Atodiad A) i gychwyn trafodaethau am gysyniadau symlach a datblygu deialog fanylach ar themâu canolog moeseg a'r defnydd o ddata gweinyddol. Roedd y gweithdy cyntaf yn dangos bod y cyfranogwyr yn gyfforddus ac yn gyfarwydd â defnyddio swyddogaeth sgwrsio testun Zoom, ac felly rhoddwyd hyn ar waith yn yr ail weithdy lle gofynnwyd i gyfranogwyr gyflwyno eu hunain trwy'r sgwrs ar ddechrau'r sesiwn a chawsant eu hannog i ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio yn ogystal â siarad trwy gydol y sesiwn.
- 4.11 Roedd nifer y cyfranogwyr yn y ddau weithdy ($n=12$, $n=13$) yn fwy na'r nifer a argymhellir o gyfranogwyr ar gyfer grwpiau ffocws personol, sef tua 6 i 8 (Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau 2020). Mae'n bosibl bod y nifer a argymhellir hyd yn oed yn llai, tua 4 i 6, ar gyfer grwpiau ffocws ar-lein, oherwydd gall rhyngweithio rhwng cyfranogwyr ddod yn anos ar-lein gyda phob cyfranogwr ychwanegol (Lander et al. 2023). Mae'n bosibl bod y maint mwy hwn wedi atal rhai cyfranogwyr rhag mynegi eu hunain yn rhydd, neu wedi gwaethgu cyfyngiadau amser fel na allai pawb sy'n cymryd rhan ddweud eu dweud yn yr amser a oedd ar gael. Fodd bynnag, lliniarwyd risgiau i feithrin cydberthynas rhwng cyfranogwyr gan fod y cyfranogwyr yn aelodau o Banel sy'n cyfarfod yn rheolaidd, sy'n golygu y gallai perthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes fod wedi bod yn eu lle.

5. Canfyddiadau

Ffigur 5.1: Themâu ac is-themâu sy'n dod i'r amlwg o'r gweithdai



Disgrifiad o Ffigur 5.1: Diagram yn dangos y prif themâu ac is-themâu sy'n dod i'r amlwg a nodwyd yng nghodio dau weithdy'r Panel Defnyddwyr. Mae'r diagram yn dangos sut mae'r is-themâu wedi'u grwpio o fewn y prif themâu, a sut mae'r prif themâu yn gysylltiedig â'i gilydd, gan ddefnyddio saethau i ddangos y dibyniaethau.

Ffynhonnell: Gweithdai Panel Defnyddwyr 1 a 2 SAIL, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 ac Ionawr 2024 yn y drefn honno.

- 5.1 Mae Ffigur 5.1, uchod, yn dangos cynrychiolaeth weledol o'r set derfynol y cytunwyd arni o themâu ac is-themâu a gynhyrchwyd o'r dadansoddiad thematig o'r trawsgrifiadau o weithdai 1 a 2. Nodwyd y themâu o ymarfer codio iteradd a gynhaliwyd ar drawsgrifiadau'r ddau weithdy. Deilliodd y rhain o drafodaethau lled-gyfeiriedig gan ddefnyddio canllawiau pwnc (gweler Atodiad A), a'r sleidiau ysgogi. Fel y mae'r diagram yn ei ddangos, nid yw'r themâu'n annibynnol ar ei gilydd ac mae cysylltiadau, gorgyffwrdd a pherthnasoedd rhwng gwahanol themâu.
- 5.2 Y tair prif thema a nodwyd o'r gweithdy cyntaf oedd: defnyddio a chamddefnyddio data, atebolrwydd, ac agweddau'r cyhoedd. Datblygwyd is-themâu ar gyfer pob un o'r rhain i egluro gwahanol agweddau neu elfennau y prif themâu. Er

enghraifft, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn is-thema i'r thema ehangach o agweddau'r cyhoedd ac roedd yn amlwg mewn trafodaethau gweithdai o ran bod ymwybyddiaeth y cyhoedd yn isel. Y tair prif thema o'r ail weithdy oedd: manteision rhannu data, ymddiriedaeth y cyhoedd, a gwybodaeth gyhoeddus a'i lledaenu. Ni thrafodir pob thema ac is-thema isod a dewiswyd y rhai a archwilir naill ai oherwydd iddynt gael mwy o sylw gan gyfranogwyr y gweithdy, neu oherwydd eu bod yn adleisio canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r prosiect hwn (Yates 2025).

- 5.3 Trafodir pedair thema ymhellach isod. O'r gweithdy cyntaf, roedd agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd yn thema gref yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth (Yates 2025). Nodwyd atebolrwydd oherwydd ei bod yn bwysig i gyfranogwyr eu bod yn deall pwy sy'n gyfrifol am storio, defnyddio a phrosesu data, yn enwedig pan fydd pethau'n mynd o chwith. Soniodd y cyfranogwyr am bwysigrwydd cyfathrebu, cyd-destun a deall pwy sy'n gyfrifol.
- 5.4 O'r ail weithdy, daeth ymddiriedaeth a thryloywder i'r amlwg fel themâu pwysig. Roedd mynediad a chynhwysiant data yn is-thema o dan y testun ehangach o wybodaeth gyhoeddus a lledaenu, ac maent yn amlygu pwysigrwydd yr iaith a ddefnyddir i egluro cysyniadau cymhleth i'r cyhoedd. Gwnaeth y cyfranogwyr rai awgrymiadau ynghylch sut i wella hygyrchedd.

Thema 1 - Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

'Does gan y cyhoedd ddim syniad' (Cyfranogwr, Gweithdy 1)

- 5.5 Thema a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r trawsgrifiadau o'r gweithdai oedd cydnabyddiaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut y defnyddir data. Mynegwyd hyn gan un cyfranogwr yn nhermau 'dim syniad' gan y cyhoedd, gan nodi ei fod yn credu nad oedd hyd yn oed ymwybyddiaeth rannol ymhlith y cyhoedd o sut y defnyddir data gweinyddol ar gyfer ymchwil. Derbyniwyd yr ymatebion hyn yn dilyn trafodaeth am erthygl newyddion am doriad data gan yr Adran Addysg a thrafodaeth ategol am doriad data pensiwn yr oedd un cyfranogwr wedi'i brofi.
- 5.6 Roedd nifer o sylwadau eraill a oedd yn amlygu canfyddiad y cyfranogwyr o ddiffyg ymwybyddiaeth a diddordeb y cyhoedd yn y modd y defnyddir data. Dywedodd un cyfranogwr 'Nid oes gan y cyhoedd unrhyw ddiddordeb yn hyn oni

thynnir eu sylw at fater' (Gweithdy Cyfranogwr 1). Roedd un arall yn gefnogol iawn i'r defnydd o ddata ar gyfer ymchwil ond yn cydnabod nad yw pobl yn gwybod digon: 'Data yw'r dyfodol, ac mae'n bwysig. A bydd yn gwneud gwahaniaeth. Ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod amdano' (Gweithdy Cyfranogwr 1).

- 5.7 Wrth ystyried hyn, mae'n bwysig cofio bod gan lawer o'r cyfranogwyr wybodaeth ac ymwybyddiaeth dda o ddata (mae rhai o'r cyfranogwyr yn gweithio gyda data neu mewn lleoliad academiaidd, ac mae pob un wedi bod yn ymwneud â thrafodaeth ar ymchwil data gweinyddol fel rhan o'u hymwneud â phanel defnyddwyr SAIL). Mae ganddynt ganfyddiad bod y cyhoedd ehangach yn llai ymwybodol, ond mae hwn yn safbwynt o'u sefyllfa o fod yn llythrennog o ran data. Fodd bynnag, tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith bod llawer nad yw'n ei ddeall hyd yn oed o'r sefyllfa hon o wybodaeth, ac mae hyn yn awgrymu bod gwahanol haenau neu lefelau o ddealltwriaeth:

'Ond wyddoch chi, nid wyf yn deall yn llwyr bob amser sut y defnyddir y data. Ac felly, rwy'n meddwl bod pobl allan yn y cyhoedd nad ydynt yn delio â data yn mynd i gael trafferth â hyn hefyd' (Cyfranogwr, Gweithdy 2).

